**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, a thrwy Microsoft Teams ddydd Iau 7 Gorffennaf 2022**

**Yn bresennol yn HCC:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies (Teams), Rhys Davies (Teams), Jack Evershed, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams (Teams)

**Trwy Wahoddiad:** Avneet Chana, Kantar (Teams) Eitem Agenda 9b
Kate Havard, Archwilio Cymru (Teams) Eitemau Agenda 10a – 10c, James Owen, Llywodraeth Cymru (Teams)
Maria Richards, Llywodraeth Cymru (Teams)

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau Agenda 7a, 7c, 8)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Glesni Phillips (Dadansoddydd Data) Eitemau Agenda 9a, 9c
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu) (Teams)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

<u>I groesawu James Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Rheoli Tir, Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru</u>

Cafodd y Bwrdd drosolwg o’r pwyntiau allweddol yng nghynigion amlinellol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a fyddai’n cynnig cymorth ariannol a chyngor i ffermwyr i gwrdd â heriau’r argyfyngau hinsawdd a natur ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

Roedd camau gweithredu arfaethedig y Cynllun wedi’u nodi o dan bum nodwedd a oedd yn cynnwys gweithio gyda ffermwyr i’w helpu i addasu i newidiadau i’r amgylchedd neu’r farchnad, helpu i wneud y defnydd gorau o’u hadnoddau a’u cefnogi i ddod yn fwy effeithlon, lleihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella stociau carbon trwy ddal a storio.

Byddai’r cynigion ar gyfer y Cynllun yn cael eu profi mewn ymarfer cyd-ddylunio a fyddai’n gwahodd ffermwyr ac aelodau o’r gymuned wledig i roi adborth drwy arolwg ar-lein a fyddai’n cael ei lansio yn ystod haf 2022.

Ceid cyfnod pontio (2025 – 2029) er mwyn rhoi amser i ffermwyr baratoi ar gyfer y Cynllun. Byddai ffermwyr yn dal i gael cymorth drwy gydol y cyfnod pontio ac wrth i Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) ddod i ben yn raddol.

Diolchodd y Cadeirydd i James Owen am friffio'r Bwrdd.

Dechreuodd y rhan ffurfiol o gyfarfod y Bwrdd.

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd:

11 Mai 2022 – Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol yng nghyfarfod Llywodraethiant Chwarterol HCC / Llywodraeth Cymru (rhithwir).

12 Mai 2022 – Cafodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod dal-i-fyny gyda'r Gweinidog, Lesley Griffiths AS (rhithwir). Mynychodd y Cadeirydd Ddigwyddiad Glaswelltir Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru a gynhaliwyd yng Ngholeg Llysfasi.

15 Mai 2022 – Mynychwyd digwyddiad ffermio cynaliadwy ar fferm Richard Roderick, Aberhonddu.

18 Mai 2022 – Presenoldeb yng Nghynhadledd Menywod mewn Cig, Llundain.

24 Mai 2022 – Gweithdy Recriwtio Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (rhithwir).

26 Mai 2022 – Cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

31 Mai 2022 – Cadeirio digwyddiad cynaliadwyedd HCC ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy yn Llanbedr Pont Steffan gyda Diana Rogers (awdur a maethegydd Americanaidd.

1 Mehefin 2022 – Diweddariad Timau Bwrdd HCC.

7 Mehefin 2022 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn nigwyddiad Dathlu Bwyd a Ffermio Cymru NFU Cymru yn y Senedd.

9 Mehefin 2022 – Mynychu Cynhadledd Ffermio Cynaliadwy NFU Cymru, yn Hwlffordd ac yna mynd gyda'r Prif Weithredwr i ddigwyddiad Blas ar Gymru Llywodraeth Cymru yn Llanfair-ym-Muallt.

4 Gorffennaf 2022 – Digwyddiad Partneriaeth Amaethyddol y DG (rhithwir).

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan yr Aelodau o'r Bwrdd, Melody Chapman, Huw Davies a Rachael Madeley Davies.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Mai 2022 (HCC 1074)**

Cymerwyd cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Mai 2022 fel y'u darllenwyd, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Data Trwybwn Lladd ar draws Prydain</u>*

Nodwyd bod deialog wedi digwydd gyda'r Byrddau Ardollau eraill a bod cytundeb ar gydweithio o ran darparu data cywir / amser real i Lywodraethau wrth symud ymlaen.

*<u>Dyddiad cau datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau y DG (UK ETS) yw 17 Mehefin 2022</u>*

Cytunwyd i lanlwytho ymateb HCC i'r uchod ar Sharepoint er gwybodaeth i'r Bwrdd.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. <u>Gweithgareddau (HCC 1075)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Weithrediaeth.

b. <u>Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1076)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

c. <u>Digwyddiadau i ddod (HCC 1077)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

d. <u>Derbyn briff ar bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 18 – 21 Gorffennaf 2022 ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Tregaron 30 Gorffennaf – 6 Awst 2022</u>

Rhoddodd y Rheolwr Cyfathrebu gyflwyniad ar bresenoldeb a gweithgareddau HCC yn Sioe Frenhinol Cymru eleni.

Roedd trefniadau ar y gweill i HCC fod yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Tregaron.

7. **<u>Cynllun Busnes HCC 2022 / 2026 a Chynllun Gweithredol HCC 2022 / 2023</u>**

a. <u>I ystyried y newidiadau arfaethedig i Gynllun Busnes HCC 2022 / 2026 a Chynllun Gweithredol HCC 2022 / 2023 (HCC 1078)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

Rhoddodd y Swyddog Gweithredol Cig Coch grynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r ddwy ddogfen yn dilyn adborth y Bwrdd yn y cyfarfod ar 3 Mawrth 2022.

Yn dilyn trafodaeth, roedd y Bwrdd yn fodlon cymeradwyo'r ddwy ddogfen yn amodol ar gynnwys cyfeiriad at faterion chwyddiant cyfredol, argyfwng costau byw a diogelwch bwyd.

b. I gymeradwyo Cynllun Busnes diwygiedig HCC ar gyfer 2022 / 2026 (HCC 1079)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

c. I gymeradwyo Cynllun Gweithredol diwygiedig HCC ar gyfer 2022 / 2023 (HCC 1080)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

8. **I ystyried Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2022 / 2023 (HCC 1081)**

Cymerwyd y papur fel y'i darllenwyd a'i gyflwyno gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Yn dilyn Brexit a phandemig Covid-19, roedd y sector wedi wynebu llawer o ansicrwydd a heriau, gan gynnwys cytundebau masnach newydd a newidiadau sydd i ddod yn y taliadau cymorth amaethyddol. Mae'r sector cig coch yn wynebu heriau newydd oherwydd chwyddiant cynyddol (costau cynyddol o ran ynni, tanwydd a bwyd i gyd yn cyfrannu at y cynnydd cyflymaf ers 30 mlynedd mewn prisiau yn y DG) a'r rhyfela yn Wcráin yn amharu ar y llif masnachol yn fyd-eang.

Fodd bynnag, er bod costau mewnbwn ar gynnydd, arhosodd prisiau gât y fferm yn sefydlog. Roedd y cyflenwad cyfyng ar y farchnad gartref yn gymorth i'r farchnad. Nodwyd bod y prisiau wrth gât y fferm ar hyn o bryd yn helpu i leddfu'r pwysau ar gynhyrchwyr oherwydd costau mewnbwn cynyddol, ond wrth i chwyddiant barhau i godi byddai elw'n cael ei erydu'n gyflym. Roedd hefyd yn anodd rhagweld beth fyddai'r galw am gig coch wrth i ddefnyddwyr deimlo'r wasgfa o ran gwario ar gyfer y cartref.

Defnyddir Ardoll Cig Coch Cymru yn bennaf ar weithgareddau i ddatblygu'r farchnad – gan gynnwys hysbysebion ar gyfer defnyddwyr, datblygu allforio, cynorthwyo'r brandiau yn y sectorau manwerth a gwasanaeth bwyd, datblygu cynhyrchion newydd a gweithgareddau mewnwelediad ymhlith defnyddwyr – ac ymchwil a datblygu. Caiff gweithgareddau datblygu'r diwydiant - megis cynorthwyo gwelliant genetig, trosglwyddo gwybodaeth a hyfforddiant - eu hariannu'n bennaf trwy ddulliau eraill o gyllido. Ar hyn o bryd, roedd HCC yn derbyn cyllid ychwanegol drwy'r Rhaglen Datblygu Cig Coch (wedi ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru), ond byddai'r cyllid hwn yn dod i ben erbyn mis Mehefin 2023.

Nid oedd cyfraddau presennol yr Ardoll wedi cynyddu ers 2011, er gwaethaf costau chwyddiant cynyddol wrth gyflawni gweithgareddau er budd cadwyn gyflenwi cig coch Cymru. Roedd hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae gan HCC

lawer llai o arian i'w wario, mewn termau cymharol, i gefnogi diwydiant cig coch Cymru.

Trafodwyd y pedwar dewis arfaethedig yn y papur yn fanwl.

Yn dilyn trafodaeth, roedd y Bwrdd, o ystyried yr heriau presennol sy'n wynebu'r diwydiant a'r materion a amlygwyd uchod, yn teimlo ei bod yn bryd ymgynghori â'r diwydiant ynghylch cynnydd yn yr Ardoll. Fodd bynnag, teimlai'r Bwrdd fod angen gwneud rhagor o waith ynghylch dewisiadau cyn gwneud penderfyniad terfynol. Felly, cytunwyd y byddai'r Swyddog Gweithredol yn gwneud hyn fel y nodwyd cyn i'r papur gael ei ailgyflwyno i'r Bwrdd yng nghyfarfod 1 Medi 2022.

9. **Argyfwng Costau Byw**

a. Derbyn diweddariad ar waith ymchwil arolwg Cost Cynhyrchu / Bwriadau Ffermwyr ac Ymddygiad Defnyddwyr

Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i gynnal arolwg ar-lein. Byddai'r arolwg yn canfod bwriadau ffermwyr mewn perthynas â'r cynnydd yng nghostau cynhyrchu a byddai'n cael ei gynnal yn ystod Medi / Hydref 2022. Byddai canlyniadau'r arolwg yn cael eu dadansoddi a'u hadrodd / trosglwyddo ar ôl hynny.

Câi'r Bwrdd ei ddiweddaru drwy'r amser am unrhyw ddatblygiadau.

b. Cyflwyniad, Tueddiadau Defnyddwyr wrth Brynu Cig Coch - Kantar

Rhoddwyd cyflwyniad / trosolwg llawn gwybodaeth am berfformiad Cig, Pysgod a Dofednod, gan ganolbwyntio ar effaith chwyddiant ar ymddygiad defnyddwyr / siopwyr.

Byddai'r cyflwyniad yn cael ei lanlwytho i Sharepoint.

10. **Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

a. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 8 Mehefin 2022 (HCC 1082)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, fe'i defnyddiwyd yn adroddiad i'r cyfarfod a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

b. *I dderbyn crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2021 / 2022 (HCC 1083)*

Gohiriwyd tan gyfarfod y Bwrdd ar 2 Tachwedd 2022.

c. *I dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021 / 2022 (HCC 1084)*

Gohiriwyd tan gyfarfod y Bwrdd ar 2 Tachwedd 2022.

Y Pwyllgor Gwaith ar Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi

d. *I fabwysiadu cofnodion cyfarfod grŵp FHH&WG a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Ebrill 2022 (HCC 1085)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Y Pwyllgor Cyfathrebu

e. *I fabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd Ddydd Iau 5 Mai 2022 (HCC 1086)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata

f. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 28 Mehefin 2022*

Rhoddodd Cadeirydd HCC (yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor) ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch yr uchod

Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)

g. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE) a gynhaliwyd ddydd Mercher 1 Mehefin 2022 (HCC 1087)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion yn adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

11. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

12. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 1 Medi 2022 [yr amser i'w gadarnhau]
Diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 6 Hydref 2022 am 9.30am

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd**